PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY


# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 17
Ebrill 2014



*Chwith i'r dde: Dr Joe Gallagher (Arweinydd y Prosiect BEACON, Aberystwyth), yr Athro Chris Thomas (Dirprwy Is-Ganghellor, Aberystwyth), Dr Adam Charlton (Rheolwr Prosiect BEACON, Bangor), Yr Athro Diane Kelly (Gwyddonydd BEACON, Abertawe), Yr Athro Steve Kelly (Gwyddonydd BEACON, Abertawe), Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid), Yr Athro Iain Donnison (Cyfarwyddwr BEACON), yr Athro April McMahon (Is-Ganghellor, Aberystwyth) a'r Athro David Shepherd (Dirprwy Is-Ganghellor Bangor)*

2 Campws Mawritiws

4 Galw ar ysgolion uwchradd Ceredigion

6 Goresgyn pob anhawster

10 Grym y Plasebo

12 Buddsoddi yn nyfodol ei harweinwyr benywaidd


## BEACON yn ennill gwobr fawreddog RegioStars y Comisiwn Ewropeaidd

Dyfarnwyd gwobr fawreddog RegioStars y Comisiwn Ewropeaidd 2014 i Ganolfan Ragoriaeth Bioburo BEACON, partneriaeth ymchwil arloesol o Gymru sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynnyrch diwydiannol o blanhigion er mwyn lleihau dibyniaeth ar adnoddau ffosil megis glo a nwy.

Mae BEACON yn bartneriaeth rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe, a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru. Mae ymchwilwyr yn BEACON yn cydweithio gyda diwydiant, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, i ddatblygu deunyddiau adnewyddadwy, tanwydd a chemegau yn ogystal ag addasu a chreu prosesau newydd sy'n gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol ac economaidd.

Dan arweiniad yr Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), roedd BEACON yn un o blith pedwar o brosiectau i gael eu cynnwys ar y rhestr fer yn y categori "Twf cynaliadwy: twf gwyrdd a swyddi drwy'r Bio-economi". Cyflwynwyd y wobr i dîm BEACON mewn seremoni wobrwyo fawreddog ym Mrwsel ar 31 Mawrth.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi bod yn trefnu gwobrau Regio Stars ers 2008, gyda'r nod o ganfod arferion da ym maes datblygu rhanbarthol ac amlygu prosiectau gwreiddiol ac arloesol a allai fod yn ddeniadol ac yn ysbrydoliaeth i ranbarthau eraill.

Ariennir BEACON drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, o dan raglen Gydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Ceir rhagor o wybodaeth am BEACON yma http://beaconwales.org/cy/

Mae'r rhestr lawn o'r cynlluniau buddugol a gwybodaeth bellach am Wobrau RegioStars ar gael yma: http://ec.europa.eu/regional_policy/projects/regiostars/regiostars_en.cfm

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffon 01970 622946.
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDION Aber ar gael ym mis **Mehefin 2014.**

Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Mawrth 6ed Mai.**

NEWYDDION

# Campws Mawritiws

Y mis diwethaf cyhoeddodd y Brifysgol ei huchelgais i agor campws newydd ym Mawritiws.

Cafodd y cyhoeddiad ei wneud gan yr Is-Ganghellor mewn cynhadledd yn Llundain a drefnwyd gan Fwrdd Buddsoddi Mawritiws.

Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda chwmni o Mawritiws, Boston Campus Limited, ac yn bwriadu lansio pedair o raglenni gradd israddedig ac un rhaglen ôl-raddedig MSc ar gyfer Medi 2014. Mae hyn yn amodol ar achrediad gan Gomisiwn Addysg Trydyddol Mawritiws chymeradwyaeth gan Senedd Prifysgol Aberystwyth.

Mae'r rhaglenni academaidd arfaethedig ar gyfer Medi 2014 yn cynnwys graddau BSc mewn Cyfrifeg a Chyllid; Cyllid Busnes; Rheolaeth Busnes; Rheolaeth gyda'r Gyfraith a'r radd Meistr MSc mewn Busnes Rhyngwladol.

Y bwriad ar gyfer Medi 2014 yw darparu'r cyrsiau mewn adeiladau sy'n cael eu rhedeg gan Boston Campus Limited yn CyberCity, Ebène, 15 km i'r de o'r brifddinas, Port Louis.

Mae cynlluniau hefyd yn cael eu datblygu gyda Boston Campus Limited i adeiladu campws preswyl modern ar gyfer hyd at 2000 o fyfyrwyr yn Quartier Militaire, 12km i mewn i'r tir o'r brifddinas Port Louis. Rhagwelir y bydd campws newydd Quartier Militaire yn agor mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015, a hynny'n amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan Gyngor y Brifysgol.

O dan y trefniant hwn byddai'r myfyrwyr sy'n astudio ar gampws Mawritiws Prifysgol Aberystwyth yn mwynhau'r un statws â'u cymheiriaid yn Aberystwyth, ac ar ôl cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus, yn derbyn graddau Prifysgol Aberystwyth.

Byddai'r holl raglenni israddedig ac ôl-raddedig a fyddai'n cael eu cynnig ar Gampws Mawritiws yn dilyn yr un prosesau sicrhau ansawdd sy'n cael eu defnyddio ym Mhrifysgol Aberystwyth.



*Darlun artist o'r campws preswyl arfaethedig yn Quartier Militaire*

Er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth a meithrin perthynas waith agos, byddai staff academaidd a gweinyddol o Aberystwyth yn treulio amser yn gweithio ar y campws ym Mawritiws, a staff o Mawritiws yn cael eu hannog i dreulio amser yn gweithio yn Aberystwyth.

Yn yr un modd, byddai myfyrwyr a fyddai'n dymuno trosglwyddo i Aberystwyth o Mawritiws yn gallu gwneud hynny, ac yn cael cynnig y dewis o fynychu seremonïau graddio yn Aberystwyth neu Mawritiws, wedi iddynt gwblhau eu cwrs yn llwyddiannus.

Wrth sefydlu campws cangen ym Mawritiws, Prifysgol Aberystwyth fyddai'r brifysgol dramor uchaf ei safle i weithredu yn y wlad.

# Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn ethol Syr Emyr Jones Parry yn Llywydd



*Syr Emyr Jones Parry*

Mae Llywydd y Brifysgol, Syr Emyr Jones Parry, wedi cael ei ethol yn Llywydd nesaf Cymdeithas Ddysgedig Cymru, cymdeithas sy'n bodoli i 'ddathlu, cydnabod, diogelu ac annog rhagoriaeth ym mhob un o'r disgyblaethau ysgolheigaidd'.

Bydd Syr Emyr yn cychwyn ei dymor o dair blynedd yn sydd Llywydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ar 14 Mai. Mae'r penodiad yn dilyn pleidlais o holl Gymrodyr y Gymdeithas a arweiniodd at ymateb ysgubol o blaid ei ethol.

# Aberystwyth ymysg goreuon y byd

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymddangos ymysg 200 o sefydliadau gorau'r byd mewn 4 o'r 30 pwnc sydd wedi eu cynnwys eleni yn y QS World University Rankings yn ôl pwnc.

Mae Daearyddiaeth, Gwleidyddiaeth, Amaethyddiaeth a Choedwigaeth a Saesneg Iaith a Llenyddiaeth oll yn ymddangos yn y rhestr uchel ei bri o brifysgolion a gyhoeddir ar www.topuniversities.com.

Mae rhestr QS World University Rankings yn ôl pwnc yn cyfuno gwybodaeth o arolygon enw da academaidd a chyflogwyr, a nifer y cyfeiriadau o bapurau academaidd.

Stori lawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/03/title-147303-en.html

**COLOFN TÎM GWEITHREDOL Y BRIFYSGOL**



Yma yn Aber mae gennym fyfyrwyr a staff o dros 90 o wledydd ledled y byd, ac rydym bob amser yn ceisio datblygu a gwella ein partneriaethau ymchwil a busnes rhyngwladol. Dros y mis diwethaf, mae'n siŵr y byddwch wedi gweld y newyddion cyffrous ein bod yn bwriadu agor campws newydd ym Mawrisiws. Ar gyfer y rhifyn hwn o NEWYDDION Aber, hoffwn ddefnyddio'r golofn hon i esbonio sut a pham y mae'r Brifysgol yn rhoi bys ei throed yng Nghefnfor yr India.

Meithrin ein cysylltiadau â'r byd yw un o'r prif amcanion yn ein Cynllun Strategol. Nid ni yw'r unig brifysgol sy'n ceisio meithrin enw da rhyngwladol a denu myfyrwyr, staff a phartneriaid o bedwar ban byd. Mi fyddwn i'n herio unrhyw Brifysgol, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, i fod yn gynaliadwy dim ond ar sail denu myfyrwyr, ac i geisio sicrhau cefnogaeth drwy ganolbwyntio ar ei hardal leol yn unig.

Pam Mawritiws? Pam lai! Er bod llawer yn meddwl am Mawritiws fel cyrchfan wyliau i barau newydd briodi, mae'r Cyngor Prydeinig wedi cydnabod uchelgais yr ynys fach i fod yn ganolbwynt byd-eang ar gyfer addysg uwch yn Affrica ac India. Mae'r Comisiwn Addysg Drydyddol a'r Bwrdd Buddsoddi yn cyflawni strategaeth uchelgeisiol Llywodraeth Mawritiws i ddenu prifysgolion i'r ynys i ddarparu profiad ardderchog i'r myfyrwyr. Fel Prifysgol rydym yn edrych ymlaen yn arw at y cyfle i helpu llywodraeth Mawritiws i gyflawni ei nod, ac ar yr un pryd cyflawni ein hamcanion i feithrin ein cysylltiadau â'r byd. Rydym yn gweld ein cangen-gampws fel cam cadarnhaol i ddenu a chynorthwyo myfyrwyr o Affrica, nad ydynt o bosib yn gallu teithio i Gymru neu'r DG, ond sy'n dymuno cael profiad addysg uwch, uchel ei ansawdd, o Brydain.

Heb ddatgelu cyfrinachau masnachol yr hyn sy'n gwneud Mawritiws yn gyrchfan lewyrchus, na maint ein buddsoddiad, mae'n bwysig esbonio na chymerwyd y penderfyniad hwn heb gefnogaeth nifer o archwiliadau ariannol a chyfreithiol – a wnaed â phob trylwyredd priodol o'n rhan ni. Rydym yn datblygu ein prosiect gyda phartner lleol yn Mawritiws ac mae hyn, yn ein barn ni, yn cryfhau ein troedle ym Mawritiws ac yn agor llu o gyfleoedd ehangach.

Ydyn ni'n ddewr yn ceisio datblygu cangen-gampws newydd yng Nghefnfor yr India? Yn ddiamau. Fodd bynnag, mae angen i ni ehangu ein gorwelion, bod yn fentergar a chymryd camau breision ymlaen gyda'n strategaethau rhyngwladol a datblygol sy'n rhoi arwydd clir o'n bwriad. Mae'r heriau yr ydym yn eu hwynebu adref, gyda mwyfwy o gystadleuaeth ar draws y sector a'r newidiadau i'r cyfyngiadau recriwtio yn Lloegr, yn golygu bod angen i ni feddwl yn wahanol.

A bwrw y bydd popeth yn digwydd fel y cynlluniwyd, a bod Comisiwn Addysg Drydyddol Mawritiws yn cymeradwyo'n cynlluniau, byddwn yn gallu cynnig cyrsiau gradd y mis Medi hwn. I ddechrau byddwn yn cynnig pedair o raglenni gradd israddedig ac MSc mewn Busnes Rhyngwladol, sy'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd gan Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth, a'n bwriad yw datblygu ein portffolio a'n darpariaeth yn y cangen-gampws.

Er nad ydym ond megis dechrau, a'n bod yn dal i weithio'n ffordd drwy'r prosesau a'r gweithdrefnau priodol, mae'r adborth cychwynnol yn galonogol iawn. Mae nifer yr academyddion a myfyrwyr, yn fewnol yn ogystal â rhai sy'n newydd i'r Brifysgol, sydd wedi holi am gyfleoedd posibl i weithio ym Mawritiws yn ardderchog. Rydym yn rhagweld y bydd cyfleoedd i fyfyrwyr Aber astudio dramor yn y dyfodol, a chyfleodd i anfon staff allan i ddysgu yn ein campws ym Mawritiws. I'r diben hwn, rydym yn gobeithio y bydd Mawritiws yn dod i gael ei adnabod fel llawer mwy na cyrchfan mis mêl, yn hyderus o wybod bod ein gwaith datblygu rhyngwladol wedi'i gynllunio i bara'n hirach o lawer na chyfnod mis mêl.

**Yr Athro John Grattan**

Dirprwy Is-Ganghellor - Rhyngwladol a Phrofiad Myfyrwyr

# Cymrawd wedi'i anrhydeddu

Dychwelodd yr Athro Douglas Kell CBE i Brifysgol Aberystwyth ar 28 Chwefror er mwyn ei wobrwyo gyda Chymrodoriaeth y Brifysgol, ac i roi darlith gyhoeddus ar sut y bydd gwyddoniaeth yn achub y blaned.

Yn academydd o fri sydd wedi ennill gwobrau, dechreuodd yr Athro Kell ei yrfa yn Aberystwyth yn 1983 lle cafodd ei ddyrchafu i Gadair Bersonol. O 1997-2002 bu'n Gyfarwyddwr Ymchwil yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol. Penodwyd yr Athro Kell yn Brif Weithredwr y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) yn 2008. Ymddeolodd o'r rôl hon y llynedd ac mae bellach yn Athro Gwyddor Bioddadansoddol ym Mhrifysgol Manceinion.

Fe dderbyniodd yr Athro Kell y cynnig o Gymrodoriaeth yng Ngorffennaf 2013, ond nid oedd yn gallu dod i'r seremonïau graddio oherwydd ymrwymiadau hir sefydlog.



*Dr Glyn Rowlands, Is-Lywydd, yr Athro Douglas Kell CBE, Cymrawd a'r Athro April McMahon, Is-Ganghellor*

NEWYDDION

# Darganfyddiad rhewlifol

Mae ymchwil rhyngwladol gan wyddonwyr sy'n cynnwys rhewlifwyr o Brifysgol Aberystwyth, Dr Ann Rowan a'r Athro Neil Glasser, wedi dangos fod Prydain yn gartref i rewlifoedd bach ychydig ganrifoedd yn ôl. Mae'r ymchwil wedi sefydlu bod rhewlifoedd bach bron yn sicr yn bodoli ym Mynyddoedd y Cairngorm yn yr Alban mor ddiweddar â'r 18fed ganrif. Yn flaenorol, credid bod rhewlifoedd olaf Prydain wedi toddi tua 11,000 o flynyddoedd yn ôl.

Stori lawn:
www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/01/title-145279-en.html

## Coedwigoedd hynafol



Yr Athro Henry Lamb

Bu'r Athro Henry Lamb o Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn trafod coedwigoedd hynafol Tywyn gyda thîm BBC News ar 23 Ionawr.

Yn dilyn y stormydd diweddar a fu'n chwipio arfordir Cymru, daeth olion o dirwedd Oes y Cerrig i'r amlwg. Cafodd yr ardal pedair milltir ar hyd yr arfordir ger Tywyn ei newid gymaint gan y môr nes ei bod wedi'i gwthio yn ôl 50 troedfedd (15 metr). Mae'r arfordir newydd wedi datgelu bodolaeth coedwig hynafol, gyda gweddillion coed sy'n dyddio'n ôl 6000 o flynyddoedd.

Mae Dr Lamb yn arbenigwr ar ddyddio radio carbon, sy'n cael ei ddefnyddio'n eang i fesur oed safleoedd archeolegol, digwyddiadau hinsawdd yn y gorffennol a newidiadau i'r amgylchedd.

Stori lawn:
www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/01/title-145448-en.html

## Mynd i'r afael â heriau ynni gwyrdd

Mae'r Rhwydwaith Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd, menter ar draws Cymru sy'n cael ei harwain gan Gynghrair Strategol Aberystwyth-Bangor, yn un o dri phrosiect sy'n rhannu £21m o gyllid fel rhan o raglen £50m Llywodraeth Cymru, Sêr Cymru.

Dyfarnwyd £7m i'r Rhwydwaith er mwyn penodi myfyrwyr PhD a chymrodyr i ddatblygu ymchwil newydd ac i ddenu mwy o fuddsoddiad i Gymru.

Mae'r rhwydwaith Cymru-gyfan sy'n cael ei arwain gan brifysgolion Aberystwyth a Bangor o dan gyfarwyddiaeth yr Athro David Thomas, yn canolbwyntio ar y rhyngweithiau rhwng tir, dŵr, darparu bwyd a chynhyrchu ynni, a sut y gellir eu cynnal er mwyn diwallu anghenion cymdeithas, yn arbennig yng ngwyneb heriau newid hinsawdd

Cyhoeddwyd y cyllid gan Weinidog Economi a Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru, Edwina Hart, ar ddydd Iau 13 Mawrth, ac mae'n nodi cwblhau rhan un o raglen Sêr Cymru a lansiwyd yn Aberystwyth ym Medi 2012 ac sydd â'r nod o ddenu talent gwyddonol i Gymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y Rhwydwaith Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd ar gael yn www.nrn-lcee.ac.uk.

Stori lawn:
www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/03/title-147529-en.html



Edwina Hart yn lansio Sêr Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2012

# Galw ar ysgolion uwchradd Ceredigion



Disgyblion ysgol uwchradd yn manteisio i'r eithaf ar y sesiynau yn y labordy

Mae'r Brifysgol yn galw ar bob ysgol uwchradd yng Ngheredigion i fanteisio ar gronfa gwerth £30,000 sy'n galluogi myfyrwyr i ymgysylltu'n uniongyrchol ag ymchwilwyr mewn pynciau sy'n cynnwys bioleg, cemeg, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, a gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff.

Mae'r arian wedi cael eu gwneud yn bosib drwy Fenter Partneriaeth Ysgolion Prifysgol (SUPI) a gyllidir ac a weinyddir gan EPSRC a Chynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig (RCUK).

Mae'r fenter tair blynedd, SusNet Cymru, yn galluogi Sefydliadau Addysg Uwch i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd a cholegau - www.rcuk.ac.uk/pe/PartnershipsInitiative.

Un o'r ysgolion sydd eisoes wedi elwa o'r prosiect hwn fel rhan o gynllun peilot y llynedd yw Ysgol Penglais, a welodd eu myfyrwyr Lefel A yn elwa o sesiynau yn yr ysgol gyda darlithwyr o'r Brifysgol dros gyfnod o chwe mis.

Stori lawn:
www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/02/title-145972-en.html

NEWYDDION




# *Red Sun* a *The Forty*

Ym mis Chwefror, ymwelodd yr actor a'r cymrawd er anrhydedd Richard Lynch â'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu i gyfrannu at y gyfres ddiweddaraf o ddigwyddiadau i ddathlu 40 mlwyddiant yr adran.

O dan gyfarwyddyd yr Athro David Ian Rabey, ymunodd Richard Lynch â'r darlithydd Roger Owen ar gyfer diwrnod o ymarferion a pherfformiad cyhoeddus 'sgript-mewn-llaw' rhad ac am ddim o ddrama gan y dramodydd o fri rhyngwladol a'r Athro er Anrhydedd yn yr adran, David Rudkin.

Mae *Red Sun*, a lwyfannwyd gyntaf yn 2003, wedi'i leoli ar ynys yn y Trydydd Byd lle mae cwmni tramor yn ecsbloetio'r adnoddau naturiol ac yn cam-drin y llwyth brodorol. Mae'n edrych ar sut mae dewin y llwyth, yn ei ddicter a'i boen yn sgil dioddefaint ei bobl, yn defnyddio ei swynau i greu creadur is-ddynol o glai. Mae'n anfon y creadur i gyflawni gweithredoedd terfysgol ymhlith y gorthrymwyr, i'w cosbi ac i geisio eu dychryn i ffwrdd. Yn anochel, mae wedi creu rhywbeth sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

Bu'r ymarfer a'r perfformiad o *Red Sun* yn fodd i Lynch gael aduniad mewn cyd-destun gwaith ymarferol gydag Owen a Rabey, cyd sylfaenwyr Cwmni Theatr y Gwir sy'n Llechu/ Lurking Truth (sefydlwyd 1985); a bydd y tri yn cydweithio unwaith eto ar ddigwyddiad arall, fel rhan o ddathliadau pellach 40 mlwyddiant yr adran: sef cynhyrchiad newydd o *The Forty*, gan Athro er Anrhydedd arall o'r adran, Howard Barker.

Mae *The Forty* yn gyfres arloesol o ddramâu byrion, a berfformiwyd gyntaf fel Prosiect Cynhyrchu Uwch yn yr adran dan gyfarwyddwyd Rabey yn 2011, ac yn destun erthygl cyfnodolyn a gyhoeddodd yn ddiweddarach. Bydd y cynhyrchiad newydd hwn yn cael ei berfformio yn stiwdio Emily Davies yr adran ar 11 a 12 Ebrill, gyda'r perfformiad cyntaf yn cyd-ddigwydd â chynhadledd flynyddol y Pwyllgor Sefydlog Adrannau Drama Prifysgol 2014, sy'n cael ei chynnal yn yr adran eleni.

# Cadwraeth ddigidol

Mae'r Brifysgol wedi ymuno â'r Gynghrair Cadwraeth Ddigidol (DPC).

Mae Cadwraeth Ddigidol yn faes sy'n prysur dyfu. Mae'n cynnwys cynllunio, dyrannu adnoddau, a defnyddio dulliau a thechnolegau cadwraethol i sicrhau bod gwybodaeth ddigidol o werth parhaus yn dal i fod yn hygyrch ac yn ddefnyddiadwy.

Mae'r Gynghrair Cadwraeth Ddigidol yn gweithio gyda sefydliadu addysg, ymarferwyr allweddol a sefydliadau llunio polisïau sy'n gyfrifol am gynnwys a chadwraeth ddigidol. Ei weledigaeth yw "gwneud ein cof digidol yn hygyrch yfory".

Eglurodd Sarah Higgins, darlithydd yn yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth: "Mae'r aelodaeth hon yn golygu y gallwn roi cefnogaeth bellach i fyfyrwyr yn ein cynlluniau gradd ôl-raddedig, yn enwedig y rhai sy'n cyflawni'r MSc mwy sefydledig mewn Sicrwydd a Rheolaeth Gwybodaeth.

Ond mae'n fwy na'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig o ran addysgu a'n myfyrwyr, mae'n ymwneud hefyd â'r effaith y gallwn ei gael drwy'r DPC. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gyfrannu ymhellach at waith y DPC, a chydweithio gydag aelodau eraill i wella dealltwriaeth o gadwraeth ddigidol yn fwy cyffredinol."

DigitalPreservationCoalition

# Llwyddiant Sundance


*Mathew David*

Mae un o gyn-fyfyriwr y Brifysgol wedi ennill gwobr yng Ngŵyl Ffilm Sundance, a gynhaliwyd yn Utah ym mis Ionawr, am ei rôl yn y ffilm *Burger*.

Cafodd y ffilm fer 11 munud, a ariennir gan Wobr Ffilm Iris, ei saethu ar leoliad yng Nghaerdydd ac mae'n dilyn unigolion sy'n ymweld â bar byrgyr hwyr yn y nos.

Enillodd yr actor o Gaerdydd, Mathew David, ynghyd â'r cast a'r cyfarwyddwr o Norwy, Magnus Mork, wobr am actio ensemble a chyfarwyddo yn yr ŵyl.

Eglurodd Mathew, a gafodd radd mewn Drama yn Aberystwyth yn 2009 cyn mynd ymlaen i hyfforddi yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru: "Yn ystod fy amser yn Aber, cymerais lawer iawn o ysbrydoliaeth gan un o'r tiwtoriaid, Joan Mills, ac roedd ei chyfeiriad yn wych. Roeddwn wrth fy modd gydag egni Aberystwyth ac roedd y bobl mor gyfeillgar yno."

NEWYDDION



# Goresgyn pob anhawster

*gan Debra Croft o'r Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol.*

Gall Addysg Uwch fod yn ddigon i godi braw ar rywun os nad oes gennych gefnogaeth teulu, ac yn aml iawn mae'r pecyn o gymorth a gynigir gan y Brifysgol – pecyn sydd wedi ennill gwobrau – yn gallu bod yn ddigon i roi'r hwb sydd ei angen i fyfyriwr sydd ar fin methu a'i helpu i lwyddo.

Rwy'n aelod o Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol y Brifysgol, a fi yw'r prif fan cyswllt i'r myfyrwyr sy'n dod atom o'r system gofal. Mae helpu myfyrwyr sydd wedi wynebu anawsterau a heriau yn gynnar yn eu bywydau i gyflawni eu potensial yn gallu bod yn ysbrydoliaeth i mi ac mae'n rhoi boddhad i mi hefyd, ac fe garwn rannu un enghraifft benodol â chi.

Cyfarfûm â Hamid Soorghali am y tro cyntaf yn 2009. Ac yntau yn ei flwyddyn olaf yn ei goleg chweched dosbarth, cysylltodd â'r Brifysgol i ofyn am y cymorth oedd ar gael i'r rhai sy'n dod o gefndir gofal.

Wedi iddo golli ei deulu pan oedd yn ifanc, roedd Hamid wedi'i dderbyn i Brydain yn Geisiwr Lloches Digwmni yn 15 oed. Aeth drwy holl hwyl a helynt bywyd ysgol a choleg yn Essex. Yn ei flwyddyn gyntaf yn ei goleg chweched dosbarth, dywedwyd wrtho nad oedd yn debygol y byddai'n gallu cyrraedd Prifysgol gan nad oedd ei farciau yn ddigon uchel. Ond, serch hynny, roedd yn benderfynol o lwyddo, yn ei ganlyniadau, ac yn ei fywyd.

Dros y pedair blynedd nesaf, gweithiodd fy nhîm ar y cyd â thîm Gofal ac Ôl-ofal Cyngor Swydd Essex er mwyn helpu Hamid â'i uchelgais i gael gradd anrhydedd ac i fynd â'i yrfa academaidd i'r lefel nesaf.

Yn haf 2010, cwblhaodd Hamid ein rhaglen Prifysgol Haf, gan ennill marciau ardderchog, ac ym mis Medi'r flwyddyn honno, cychwynnodd ar gwrs gradd yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Wrth iddo astudio, roedd Hamid yn awyddus i helpu'r rhai a oedd yn wynebu anawsterau tebyg i'r rhai a wynebodd yntau. Gwnaeth hynny drwy fod yn esiampl i fyfyrwyr iau drwy weithio ar raglen Prifysgol Haf 2012 yn Fyfyriwr-Arweinydd ymhlith pethau eraill, yn rhoi gofal bugeiliol i grŵp o ddarpar fyfyrwyr 17 oed yn ystod y rhaglen breswyl chwe wythnos.

Yn 2013, graddiodd Hamid â gradd dosbarth dau un mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac Astudiaethau Cudd-wybodaeth. Ar ben hynny, enillodd wobr Ken Roberson am y marc uchaf mewn Astudiaethau Cudd-wybodaeth yn ei flwyddyn. Ers hynny, mae Hamid wedi mynd ymlaen i astudio am Radd Meistr yn Ysgol Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd Prifysgol Llundain.

Mae Hamid wedi wynebu mwy o heriau na'r rhan fwyaf o bobl 23 oed, ond eto mae wedi cyflawni llawer mwy nag y gellid bod wedi ei ddisgwyl. Mae ei stori'n dangos bod canlyniadau rhagorol yn bosib os bydd unigolyn ifanc sy'n benderfynol a brwd, tîm gwasanaethau cymdeithasol gofalgar a Phrifysgol yn dod at ei gilydd. Dymunwn bob llwyddiant i Hamid yn y dyfodol.

## Stori Hamid

Ni fu fy nhaith dros yr wyth mlynedd diwethaf heb ei phryderon a'i hanawsterau, ond rwyf wedi dysgu mai dyna hanfod dysgu, byw a bod.

A minnau'n berson ifanc sydd wedi bod mewn gofal ers oedran cynnar, wedi wynebu cryn anawsterau yn fy mrwydr i greu bywyd newydd i mi fy hun ym Mhrydain, ac wrth wneud hynny wedi wynebu newidiadau mawr dro ar ôl tro, a hynny heb lawer o'r pethau sylfaenol y byddai eu hangen ar y rhan fwyaf o bobl ifanc er mwyn llwyddo, rwy'n falch o allu dweud fy mod wedi llwyddo i oresgyn llawer o'r anawsterau hynny, a chanolbwyntio ar fy astudiaethau ar yr un pryd.

Cofiaf ddiwedd fy mlwyddyn gyntaf yn fy ngholeg chweched dosbarth, pan roddodd fy athrawon y newyddion torcalonnus ynghylch pa mor ofnadwy oedd fy marciau, ac na fyddai modd imi wneud cais i brifysgol mwyach, oni ddigwyddai rhyw wyrth. Roeddwn wedi fy nigalonni'n llwyr. Roeddwn wedi blino ar fy nghymhelliad i wneud yr un pethau gwael drosodd a thro yn fy arddegau, neu i beidio â dyfalbarhau a chadw at rywbeth yn ddigon hir, ond gan ddisgwyl cael canlyniad cadarnhaol serch hynny. Roedd yn rhaid i bethau newid.

Roeddwn yn awyddus i fyw yn fy myd, ei ddychmygu a'i fynegi'n wahanol. Dechreuais drwy feddwl yn ofalus am weddustra a gonestrwydd; am lle'r oeddwn am fod, a'r pethau roeddwn am eu gwneud. Er mwyn cael gwell dyfodol, fy mwriad oedd fy nysgu fy hun a'm cynnal fy hun drwy'r troeon trwstan o'm blaen, a gwella fy ffordd o fyw, llyfnhau'r ymylon garw, a dyfalbarhau â'm hymdrechion i lwyddo.



*Hamid Soorghali*

Daeth tro ar fy myd ers hynny. Llwyddais i wella fy marciau a llwyddo yn fy ngholeg chweched dosbarth, a mynd ymlaen i astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol mewn Prifysgol uchel ei bri, a chael y marc uchaf yn nosbarth fy nghynllun gradd yn fy mlwyddyn derfynol. Ond ni fyddai hynny wedi gallu digwydd heb gymorth gofalgar Geeta Ray yn y Tîm Gadael Ôl-ofal, a Debra Croft yn yr adran Ehangu Cyfranogiad ym Mhrifysgol Aberystwyth. Rwy'n hynod ddiolchgar fy mod wedi cwrdd â'r ddau unigolyn mawr eu gofal hyn, ar oedran hollbwysig. Ac rwyf am fachu ar y cyfle hwn hefyd i ddiolch i'm cyn rieni maeth gofalgar, Sara a Graham Seddon, dau o'r bobl hyfrytaf.

Heblaw am fy astudiaethau, rwyf wedi rhoi rhan helaeth o'm hamser, ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn awr yn yr Ysgol Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd, i les ac addysg myfyrwyr o gefndiroedd Ehangu Mynediad, ac yn benodol y rhai sydd wedi wynebu amryw o anawsterau sydd yn eu tro wedi cyfyngu ar eu gweledigaeth a'u cyflawniad. Mae hyn yn deillio o'm hargyhoeddiad moesegol a dyngarol a'm hymroddiad i gynorthwyo'r rhai sydd wedi cael cefndir ac anawsterau tebyg i'm rhai i. Nid wyf wedi anghofio fy ngorffennol, ac ni wnaf byth.

NEWYDDION

# Gwella llywodraethu dŵr o gwmpas y byd



*Yr Athro Tony Jones*

Mae'r Athro Tony Jones, Athro Emeritws yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, wedi ei benodi yn Brif Aseswr ar gyfer y 7fed Cyfnod o Raglen Hydrolegol Ryngwladol (IHP) UNESCO sy'n anelu at wella'r broses o reoli dŵr a glanweithdra o amgylch y byd a helpu i weithredu Amcanion Datblygu Mileniwm y Cenhedloedd Unedig ar ddŵr.

Yr IHP yw'r sefydliad dŵr rhyngwladol hynaf a mwyaf sefydledig o fewn y Cenhedloedd Unedig ac mae'n arbenigo mewn prosiectau ymchwil a datblygu sy'n gysylltiedig â rheoli dŵr, yn enwedig o ran gwella llywodraethu dŵr mewn gwledydd sy'n datblygu. Mae'n gwasanaethu 190 o aelod-wladwriaethau.

Mae Tony Jones wedi bod yn cynnal ymchwil i adnoddau dŵr a newid yn yr hinsawdd ers 1990, ac ef gychwynnodd rhywfaint o'r ymchwil cyntaf i effeithiau cynhesu byd-eang ar lif afonydd ac adnoddau dŵr yng Nghymru ac yn y DG.

Stori lawn:
www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/02/title-146385-en.html

# Prifysgol Aberystwyth yn y 10 uchaf ar gyfer myfyrwyr o Norwy

Mae Prifysgol Aberystwyth yn y 10 uchaf ymysg myfyrwyr o Norwy sy'n dewis astudio yn y Deynas Gyfunol a'r dewis cyntaf iddynt yng Nghymru yn ôl ffigyrau diweddaraf HESA.

Mae oddeutu 900 o fyfyrwyr rhyngwladol o fwy na 90 o wledydd wedi ymgartrefu yn Aberystwyth. Yr adrannau mwyaf poblogaidd ymysg y 98 o fyfyrwyr o Norwy sy'n astudio yn Aberystwyth ar hyn o bryd yw Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Mae myfyrwyr o Norwy yn rhagori yn y Brifysgol gyda 70% yn ennill gradd dosbarth cyntaf neu ail uchaf o'i gymharu â 59% o bob gwlad arall (haf 2013).



*Mae Ellen Dingstad, sy'n wreiddiol o Oslo, yn fyfyrwraig trydedd flwyddyn sy'n astudio Astudiaethau Ffilm a Theledu*

Stori lawn:
www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/01/title-145324-en.html



YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI




Bydd Rhwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth yn dychwelyd ar nos Lun, 19 Mai 2014. Bydd ganddo fformat newydd, ac edrychwn ymlaen at gael croesawu ein prif siaradwr, Fiona Roberts, sydd yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol i Volkswagen Group United Kingdom Cyf.

Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle gwych i wahodd ein cysylltiadau o fusnesau a chyrff allanol i'r campws, yn ogystal ag estyn gwahoddiadau i gyrff rydym yn gobeithio â meithrin cysylltiadau â nhw.

Yn ogystal â chynnig cyflwyniadau a fydd yn ysgogi'r meddwl, gan siaradwyr uchel eu bri, mae'r digwyddiadau anffurfiol hyn sy'n canolbwyntio ar fyd busnes, yn rhoi cyfle i gyfarfod â chynrychiolwyr o bob rhan o'r Brifysgol, i rwydweithio â chyrff allanol ac i ddysgu mwy am y cyfoeth o gyfleoedd y mae Prifysgol Aberystwyth yn eu cynnig.

Am ragor o wybodaeth am y Rhwydwaith Busnes, gweler www.aber.ac.uk/network

**Gary Reed,** Pennaeth Ymchwil, Busnes ac Arloesi.




# Gweddnewid gwyddor gymdeithasol

Mae Prifysgol wedi creu swydd newydd uwch yn ddiweddar sy'n dangos ei hymrwymiad i Ddyfarniad gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol i feithrin ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol sy'n gallu bod yn wir 'weddnewidiol'.

Penodwyd Yr Athro Michael Woods o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn Athro Gwyddor Gymdeithasol Weddnewidiol. Bydd y swydd arloesol hon yn arwain rhaglen ddwy flynedd fydd yn canolbwyntio ar dri faes blaenoriaeth strategol y Cyngor Ymchwil gyda'r nod o feithrin gweddnewid ym meysydd damcaniaethau, dulliau a chyfnewid gwybodaeth.

Meddai'r Athro Woods am ei benodiad: "Dyma gyfle cyffrous i ddatblygu ymchwil sy'n gweddnewid gwybodaeth a dulliau gwyddorau cymdeithasol, yn ogystal â sicrhau bod ein gwaith ymchwil yn cael gwir effaith ar weddnewid cymdeithas er gwell".

Trwy hyrwyddo ymchwil newydd a rhyngddisgyblaethol, bydd yr Athro Gwyddor Gymdeithasol Weddnewidiol yn arwain rhaglen o weithgareddau fydd yn ennyn diddordeb ei gyd-ysgolheigion, aelodau o'r gymuned leol ynghyd â llunwyr polisi ac ymarferwyr yn y maes.

Gan ddefnyddio dulliau arloesol, bydd y gweithgareddau arfaethedig yn cynnwys cyfres o weithdai gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i gynhyrchu gwybodaeth ar y cyd ac archwilio tair prif flaenoriaeth y Cyngor Ymchwil. At hyn, trwy gydweithio ag unigolion o'r disgyblaethau creadigol, y nod fydd datblygu a phrofi effeithiolrwydd ffurfiau newydd o gyfnewid gwybodaeth gyda chymunedau lleol – er enghraifft, trwy ddefnyddio ffilm, barddoniaeth, celf a pherfformiad i gyfleu syniadau am degwch, cynaliadwyedd ac ymddygiad sy'n newid.

Fel rhan o'i waith, bydd Yr Athro Woods yn archwilio'r posibiliadau o gyhoeddi ar wahanol agweddau o'r gweithgareddau, yn ogystal â sicrhau gwaddol hir dymor i'r rhaglen; yn bennaf mewn perthynas â hybu ceisiadau ymchwil dilynol gweddnewidiol yn y gwyddorau cymdeithasol, wedi'u hanelu'n bennaf at y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

# Polisi mynediad agored

Mae llawer o ddarparwyr cyllid ymchwil (gan gynnwys RCUK, Cyllid Ewropeaidd FP7/Horizon 2020 a'r Cyngor Ymchwil Ewropeaidd) erbyn hyn yn mynnu bod cynnyrch ymchwil, ac erthyglau cyfnodolion yn benodol, sy'n deillio o'r gwaith ymchwil y maent hwy yn ei ariannu, i'w cael drwy Fynediad Agored.

Mae cyhoeddi Mynediad Agored yn golygu bod pob darllenwr yn gallu cael gafael ar bapurau heb orfod talu tanysgrifiadau na ffioedd lawrlwytho, a thrwy hynny mae canlyniadau ymchwil yn gallu cael eu lledaenu drwy gynulleidfa ehangach.

Er mwyn bodloni gofynion y cyrff cyllido, ac yn rhan o'n gwaith paratoi at FfRhY2020, mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu polisi ar Fynediad Agored yn ddiweddar. Cytunodd Pwyllgor Ymchwil a Gweithrediaeth y Brifysgol, lle y bo modd, o 1 Ionawr 2014 ymlaen, y dylai pob erthygl newydd mewn cyfnodolyn fod ar gael drwy Fynediad Agored a hynny, yn ddelfrydol, drwy eu rhoi mewn cadwrfa Mynediad Agored, megis CADAIR, cadwrfa'r Brifysgol - http://cadair.aber.ac.uk/. Ceir manylion am y gwahanol lwybrau i gyhoeddi Mynediad Agored ar http://jump.aber.ac.uk/?gxmq.

Mae'r polisi newydd yn golygu cryn newid i arferion gwaith ymchwil a bydd rhagor o wybodaeth ar gael i'r holl staff a myfyrwyr sy'n ymgymryd ag ymchwil. Bydd sesiynau gwybodaeth yn rhoi manylion am ofynion Mynediad Agored yn cael eu hysbysebu drwy'r Bwletin Wythnosol. Yn y cyfamser, cofiwch fod modd cysylltu ag openaccess@aber.ac.uk os bydd gennych unrhyw gwestiynau brys.

# Porth Byd-eang i ymchwil Cymru

Ddydd Gŵyl Dewi fe lansiwyd gwe-borth sy'n dod ag ymchwil Cymru a busnesau byd-eang at ei gilydd.



Mae Wales IP (www.walesip.com) yn borth i ddarpar fuddsoddwyr neu gwmnïau sy'n chwilio am geisiadau masnachol, yn eu helpu i ddod o hyd i gyfleoedd arloesol a ddatblygir gan bum prifysgol ymchwil-ddwys Cymru. Mae'n actio fel porth i 95% o waith ymchwil y rhanbarth ac mae'n helpu ymchwilwyr i ddod o hyd i eiddo deallusol yn ogystal â meysydd cydweithredu posib.

Mae'r wefan yn rhyngwyneb cyhoeddus y Prosiect Cydweithredu Eiddo Deallusol (IPCoP) rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe.

Mae'r Prosiect IPCoP yn dod â rhwydwaith o Swyddogion Trosglwyddo Technoleg ynghyd sydd yn gallu gwneud cofnod o waith ymchwil yng Nghymru, a'i ddiogelu a'i fasnacheiddio, er mwyn cynorthwyo economi Cymru a datblygu 'diwylliant arloesi'.

Yn ei flwyddyn gyntaf, daeth y Prosiect o hyd i sawl technoleg newydd a chanddynt gryn botensial, gan lwyddo i gael mwy nag £1.1m o incwm trosiannol. Dyma rai o gryfderau'r bartneriaeth: diogelu cyflenwadau bwyd, ynni a'r amgylchedd, iechyd a'r biowyddorau, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch, yr economi ddigidol a'r diwylliannau creadigol.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sy'n ariannu'r prosiect. Drwy fanteisio ar yr ymchwil arloesol a'r cyfoeth helaeth o arbenigedd yn y sefydliadau hyn, mae Prosiect IPCoP yn bwriadu gyrru economi wybodaeth Cymru yn ei blaen, economi werth £177M yn 2011-12.

# Y Diweddaraf am gyllid yr UE

Mae Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yn hynod bwysig i'r Brifysgol gan mai'r cronfeydd hyn sy'n darparu ei ffynhonnell fwyaf o gyllid am ymchwil ac arloesi, gan helpu i gynnal prosiectau megis BEACON, SmartCoasts, a phrosiectau Ysgoloriaethau Myfyrwyr Cyfnewid Gwybodaeth.

Datblygiad a allai fod yn arwyddocaol o safbwynt y Brifysgol yw'r ffaith bod yr Athro April McMahon wedi'i dewis i gynrychioli Sefydliadau Addysg Uwch Cymru ar Bwyllgor WEFO ar Fonitro Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd sy'n goruchwylio'r modd y bydd y ddogn newydd o gyllid i 2014-2020 yn cael ei weithredu. Y tebyg yw y cawn wybod am gynlluniau WEFO ar gyfer gweithredu'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol newydd tua diwedd y gwanwyn. Ac ar ôl inni gael y cynlluniau hynny, bydd Uned yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi ar yr UE yn trefnu cyfres o gyflwyniadau ar gyfer y staff sydd â diddordeb mewn gwneud ceisiadau am gyllid i gefnogi cynigion blaenoriaeth.

Cafodd y 'celc' mwyaf o gyllid ymchwil yn y byd, sef rhaglen 'Horizon2020', ei lansio'n swyddogol ar 11 Rhagfyr 2013, pan gyhoeddwyd galwadau am 2014 a 2015. Rhoddwyd 11 o sesiynau gwybodaeth i gyd-fynd â'r lansiad, bob un yn ymdrin ag amryw is-themâu, ac fe gynhaliwyd dwy sesiwn ar ysgrifennu cynigion yn fuan wedyn.

O ganlyniad i brosiect newydd yr Athro Michael Woods ar Uwch Grantiau y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd, a fydd yn denu grant gwerth €2.25M, fe fydd y Brifysgol yn elwa ar dros €18M i helpu i gynnal 44 o brosiectau o gynllun Rhaglen Fframwaith 7, sef rhagflaenydd 'Horizon2020'.

# Hybu cydweithredu drwy leoliadau

Mae'r Rhaglen Cyd-ddealltwriaeth Strategol yn rhaglen i Gymru gyfan sy'n hybu gwaith cydweithredol drwy helpu academyddion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth â phartneriaid allanol. Mae'r Rhaglen yn ariannu lleoliadau byr ar gyfer staff y Brifysgol iddynt fynd i'r sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, neu i bobl o'r sectorau hynny i gael lleoliadau yn y Brifysgol. Mae'r lleoliadau byrion hyn (40-50 awr) yn gallu cynnig golwg newydd ar brosiectau cyfredol yn ogystal â bod yn sbardun i syniadau newydd.

Mae lleoliadau wedi'u rhoi ar draws y disgyblaethau, o'r celfyddydau i'r gwyddorau, a gallent fod yn sylfaen ddelfrydol ar gyfer partneriaethau strategol yn y tymor hir. Drwy ei lleoliad hi gyda Rhwydwaith Ymchwil Canser Cymru NSCHR, cafodd y Dr Joanne Wallace (Adran Chwaraeon ac Ymarfer Corff) y cyfle i feithrin cysylltiadau gwaith â sawl corff a sefydliad gwahanol. "Roedd y cais am y Rhaglen yn wirioneddol ddidrafferth, a dim ond rhyw wythnos oedd rhwng cyflwyno'r cais a chael y gymeradwyaeth. Roedd hi'n brofiad rhwydweithio unigryw, ac fe gefais y cyfle wedyn i ddatblygu cysylltiadau â sawl sefydliad gwahanol. Bydd y profiad o weithio ar y cyd â'r grwpiau hyn yn bendant yn golygu y byddaf yn fwy llwyddiannus yn cael grantiau ymchwil mwy".

Mewn lleoliad llwyddiannus diweddar arall, helpodd y Rhaglen Dr Sarah Riley â gwaith gyda Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth ar ymgyrch ar hyder a'r corff sydd wedi arwain at gryfhau cysylltiadau rhwng Prifysgol Aberystwyth a llunwyr polisïau.

Os hoffech fwy o wybodaeth am y Rhaglen Cyd-ddealltwriaeth Strategol, cysylltwch â'r Dr Dafydd Roberts (dir@aber.ac.uk) i drafod syniadau posib ac i gael gwybod pa mor ddidrafferth yw'r broses ymgeisio.

# Grym y Plasebo



Dr Chris Beedie. Llun: BBC

Mae Dr Chris Beedie yn Ddarllenydd mewn Seicoleg Chwaraeon yn yr Adran Seicoleg, a'i ymchwil yn edrych ar rôl emosiynau a chred yn ymddygiad bodau dynol. Ym mis Chwefror, gwelwyd Chris ar raglen wyddoniaeth hirsefydlog y BBC *Horizon*. Yn y rhaglen, *The Power of the Placebo*, a ddarlledwyd ar 17 Chwefror, bu Chris yn dangos sut y gall y plasebo wella perfformiad ym myd y campau. Dyma ymdriniaeth Chris ar yr agwedd hon ar ei ymchwil:

Bydd athletwyr yn chwilio am unrhyw gynnyrch, technoleg, neu broses a allai roi mantais gystadleuol iddynt, ac o'r herwydd mae rhai'n defnyddio cyffuriau anghyfreithlon a allai fod yn niweidiol iddynt. Mae defnyddio'r cyffuriau hyn yn tanseilio ethos chwaraeon. Yn fwy difrifol na hynny, mae'n peryglu iechyd yr athletwyr. Ar hyn o bryd, mae 73 o farwolaethau wedi'u cofnodi yn sgil defnyddio cyffuriau sy'n gwella perfformiad ym myd y campau.

Mae nifer fach o athletwyr a fethodd brofion cyffuriau wedi honni nad oeddent yn gwybod eu bod wedi cymryd y cyffur. Daeth i'r amlwg bellach fod hyfforddwyr, gwyddonwyr a meddygon tîm wedi bod yn rhoi cyffuriau drwy dwyll mewn sawl achos. Ddeng mlynedd yn ôl, honnodd un o'r athletwyr hyn fod y cyffur wedi cael llai o effaith arno am nad oedd yn gwybod ei fod wedi'i gymryd, hynny yw, na all cyffur ond bod yn gwbl effeithiol os yw'r athletwr yn gwybod ei fod wedi'i gymryd. Er bod yr honiad hwn, ar yr olwg gyntaf, yn groes i'r graen, nid yw'n anghyson â chanfyddiadau diweddar ynglŷn ag effaith y plasebo mewn meddygaeth.

Ers deng mlynedd, rwyf i a thîm o wyddonwyr chwaraeon mewn Prifysgolion ledled y DG yn ymchwilio i'r syniad hwn.

Yn gyntaf, edrychwyd ar yr hyn sy'n digwydd pan fo athletwyr yn perfformio hyd eu heithaf a hwythau'n credu iddynt gymryd cyffur i wella'u perfformiad. Mewn gwirionedd, plasebo a roddwyd iddynt (dywedwyd wrthynt eu bod wedi cymryd llawer iawn o gaffein, sylwedd sydd, er ei fod yn gyfreithlon ym myd y campau, yn gallu gwella perfformiad yn sylweddol). Cafwyd bod yr athletwyr yn mynd yn gynt, a mwyaf yn y byd o gaffein yr oeddent yn credu iddynt ei gymryd, cyflymaf yn y byd yr oeddent yn mynd. Wrth gwrs, doedden nhw ddim wedi cymryd dim caffein, ond roedden nhw'n meddwl eu bod. Dyma effaith y plasebo, er mai dim ond ar un perfformiad yr oedd hynny.

Yn ail, edrychwyd ar yr hyn a fyddai'n digwydd pe clywai gwahanol athletwyr wahanol storïau am yr un 'cyffur' (plasebo unwaith eto); roedd rhai'n meddwl y byddai'n gwneud iddynt fynd yn gynt, ac eraill y byddai'n gwneud iddynt fynd yn arafach. Does dim rhyfedd felly, ac ystyried yr uchod, fod yr effeithiau'n



fwy cydnaws â'r stori nag â chynnwys y tabledi. Gwelwyd effaith plasebo negyddol ar y rhai a aeth yn arafach.

Yn olaf rhoddwyd 'cyffur' go iawn (caffein) i'r athletwyr a dweud wrthynt mai plasebo ydoedd, er mwyn cael gweld a fyddai'r un mor effeithiol â phan roddwyd y cyffur iddynt a dweud y gwir wrthynt. Doedd e ddim; er i'r caffein gael effaith ar yr athletwyr yn y ddau gategori hyn, roedd fel petai'n gweithio bron i ddwywaith yn well pan oedd yr athletwyr yn gwybod eu bod wedi'i gymryd. Gellid dadlau bod y canfyddiad hwn yn cefnogi honiadau'r athletwyr a ddisgrifir uchod. Mae hynny hefyd yn fath ar effaith plasebo.

Awgryma canfyddiadau ein hymchwil y gall y plasebo gael effaith debyg i gyffuriau ar lefelau perfformiad. Maent yn awgrymu hefyd fod cyffuriau'n fwy tebygol o fod yn effeithiol pan fo'r athletwr yn disgwyl gweld effaith gadarnhaol na phan fo'n disgwyl gweld effaith negyddol, ac y gallai cyffuriau o bosib fod yn fwy effeithiol pan fo athletwyr yn gwybod eu bod wedi'u cymryd na phan nad ydynt yn gwybod hynny. Felly, mae'r meddwl lawn cyn bwysiced â'r corff pan fo athletwr yn defnyddio cyffuriau.

Felly pa werth sydd i'r ymchwil hwn? Yn ddamcaniaethol, os gallwn ddangos i athletwyr ac i hyfforddwyr fod y meddwl lawn cyn bwysiced â'r botel neu'r chwistrell o safbwynt gwella'u perfformiad, mae'n bosib y gallwn sicrhau bod llai o gyffuriau'n cael eu defnyddio ym myd y campau. Gallai hynny yn ei dro fod yn hwb i ffydd y cyhoedd – ac yn enwedig felly rieni darpar athletwyr – mewn chwaraeon. Yn bwysicach na hynny, gallai leihau effeithiau defnyddio cyffuriau, sy'n aml yn negyddol, ar iechyd athletwyr. Mae ein hymchwil ar hyn o bryd yn profi'r syniad hwn drwy bwyso a mesur agweddau at ddefnyddio cyffuriau cyn ac ar ôl i athletwyr brofi'r math o 'effaith plasebo ar chwaraeon' a ddisgrifir uchod.

I gael gwybod mwy, cysylltwch â Chris yn chb44@aber.ac.uk.

NEWYDDION Y MYFYRWYR

## Etholiadau, Cinio Iach, y Ddawns Fai a Rygbi 7 bob ochr – mae'r Undeb yn llawn bwrlwm.



Mae'n bleser gennyf gyhoeddi canlyniadau Etholiadau'r Myfyrwyr 2014, pan gafodd y grŵp nesaf o Swyddogion llawn amser eu hethol gan y myfyrwyr i'w cynrychioli yn 2014–15. Yn nhîm sabothol y flwyddyn nesaf bydd Jacob Ellis, Llywydd, Harriet O'Shea, Swyddog Gweithgareddau, Grace Burton, Swyddog Addysg, Will Atkinson, Swyddog Lles, a Miriam Williams, Swyddog UMCA a Materion Cymreig.

Adeg argraffu'r golofn hon, bydd y tîm newydd yn paratoi i ddechrau yn eu swyddi. Dyma gyfnod cyffrous iawn i'r Undeb, ac edrychaf ymlaen at gyflwyno'r tîm newydd hwn o Swyddogion yn fwy manwl yn rhifyn nesaf NEWYDDION Aber. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn hefyd at y gwaith gwych a'r ymgyrchoedd y byddant yn eu rhoi ar waith i wella bywydau myfyrwyr Aberystwyth.

Roedd yn dda iawn gennym y semester hwn ail-lansio ein man arlwyo ar y llawr gwaelod yn yr Undeb, 'The Underground'. Gwasanaethau'r Campws oedd yn rhedeg y cyfleuster hwn o'r blaen. Drwy gydol yr wythnos, rydym yn cynnig dewis blasus o frechdanau baguette poeth ac oer, tatws trwy'u crwyn a bar salad hunan wasanaeth – dewis perffaith ar gyfer cinio iach. Mae ychydig o addurno a dodrefn meddal ar y llawr gwaelod wedi creu lle newydd gwych i fyfyrwyr gael cymdeithasu pan ddônt i'r Undeb – boed hynny i weithio neu i chwarae.

Mae llawer o weithgareddau ar y calendr cymdeithasol y semester hwn. Rydym wrthi'n brysur yn paratoi at y Ddawns Fai ar 9 Mai – byddwn yn meddiannu'r campws am noson o adloniant byw, yn Undeb y Myfyrwyr ac yng Nghanolfan y Celfyddydau. Noson i'r myfyrwyr a'r staff fel ei gilydd fydd hon, ac rydym yn sicr y bydd rhywbeth at ddant pawb ar y noson.




*Caffi 'The Underground' yn Undeb y Myfyrwyr*

Rydym hefyd yn paratoi at y twrnamaint Rygbi 7 Bob Ochr ar 3–4 May – penwythnos allweddol yn ein calendr chwaraeon, pan fydd oddeutu 1,000 o chwaraewyr yn cystadlu mewn cynghreiriau elite a chymdeithasol. Rydym wedi cofrestru myfyrwyr presennol, cyn-fyfyrwyr y Brifysgol sy'n dod ar bererindod yn ôl i Aberystwyth bob blwyddyn, staff y Brifysgol a chlybiau rygbi o bob cwr o'r wlad. Bydd adloniant byw gydol y penwythnos ar Gaeau Chwarae Blaendolau mewn digwyddiad llawn hwyl i'r teulu cyfan.

Byddai'n dda gennyf allu rhannu ein newyddion i gyd yn y golofn hon, ond ewch i'n gwefan i gael gwybod mwy am newyddion a datblygiadau newydd cyffrous yr Undeb – www.abersu.co.uk

**Jamie Barker**

Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

# Yn boeth o'r wasg!

Llongyfarchiadau i Tîm Aber ar eu buddugoliaeth o 22-13 yng Ngemau Rhyng-golegol Aber Bangor 2014.

## Trefn dyrchafiadau, gwobrwyo a chydnabod 2014

### Trefn Ddyrchafiadau

Mae'r drefn ar gyfer dyrchafu cydweithwyr yn Uwch-ddarlithwyr, yn Ddarllenwyr ac i Gadeiriau Personol yn 2014 wedi dechrau. Y dyddiad cau ar gyfer datgan diddordeb oedd 24 Mawrth 2014 ac rydym yn falch ein bod wedi derbyn nifer uchel o ddatganiadau o ddiddordeb eleni eto. Mae'r mentoriaid bellach wedi'u pennu ac mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf y drefn fel a ganlyn:-

**5 Medi 2014**

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau

**8 Medi – 9 Tachwedd 2014**

Sicrhau adroddiadau a geirdâu aseswyr a dosbarthu ceisiadau i aelodau'r panel

**10 Tachwedd 2014 a 17 Tachwedd 2014**

Panel Dyrchafiadau Academaidd yn cwrdd

Gellir dod o hyd i fanylion llawn y Drefn Ddyrchafiadau Academaidd ar wefan Adnoddau Dynol: www.aber.ac.uk/cy/hr/academic-promotions/.

### Amserlen Pwyntiau Cyfrannol a Chynyddrannau Cyflymedig 2014

Rydym yn falch o gyhoeddi'r amserlen ar gyfer trefniadau Pwyntiau Cyfrannol a Chynyddrannau Cyflymedig 2014. Nodwch fod y trefniadau wedi cael eu hadolygu yn rhan o'n hymrwymiad i welliannau parhaol ac mae'r manylion diwygiedig i'w gweld fan hyn www.aber.ac.uk/cy/hr/employment-information/contribution/

**1 Awst 2014** - Dechrau'r cyfnod cyflwyno ceisiadau

**28 Tachwedd 2014** - Dyddiad cau derbyn ceisiadau

**w/d 19 Ionawr 2015** - Panel PCCC yn cwrdd

**w/d 26 Ionawr 2015** - Panel PCCC yn cwrdd

**3 Chwefror 2015** - Y Tîm Gweithredol yn ystyried awgrymiadau'r panel

**10 Chwefror 2015** - Gweithwyr yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad.

Cewch eich hysbysu o'r dyddiadau eto cyn mis Awst a bydd negeseuon atgoffa cyson yn cael eu hanfon rhwng 1 Awst a 28 Tachwedd 2014.

Os oes gennych gwestiwn, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Adnoddau Dynol.

# Y Brifysgol yn buddsoddi yn nyfodol ei harweinwyr benywaidd



Dr Sarah Davies, un o'r pum aelod o staff benywaidd sy'n rhan o raglen Sefydliad Arweinyddiaeth Aurora ar gyfer Addysg Uwch

Mae'r Brifysgol yn cefnogi pum aelod o staff benywaidd i fod yn rhan o raglen Sefydliad Arweinyddiaeth Aurora ar gyfer Addysg Uwch (Leadership Foundation for Higher Education – LFHE), sef menter datblygu arweinyddiaeth newydd i fenywod a lansiwyd y llynedd.

Mae'r fenter hon yn ymateb i ymchwil y LFHE ei hun sy'n dangos bod llai o ferched yn y swyddi uchaf mewn addysg uwch nawr nag oedd ddeng mlynedd yn ôl.

Er bod y rhan fwyaf o raglenni arweinyddiaeth yn cael eu hanelu at arweinwyr a rheolwyr sydd eisoes yn y rôl, mae Aurora wedi'i gynllunio i alluogi amrywiaeth eang o fenywod mewn swyddi academaidd a phroffesiynol mewn addysg uwch i gael manteisio ar hyfforddiant datblygu arweinyddiaeth yn gynt yn eu gyrfaoedd.

Y pum wraig o Aberystwyth sy'n rhan o'r rhaglen yw Dr Sarah Riley, o'r Adran Seicoleg, Dr Anoush Simon a Ms Jean Jones o'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth, Dr Sarah Davies o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, a Dr Ifat Parveen Shah o'r Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS).

Ym mis Ebrill 2014, bydd y Brifysgol yn gwneud cais am wobr Efydd Sefydliadol Athena SWAN a Siarter Cydraddoldeb Rhywedd yr Uned Her Cydraddoldeb.

Stori lawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/01/title-145411-cy.html

## Cystadleuaeth ffotograffiaeth Diwrnod Rhyngwladol y Menywod



'Geek is smart and chic'. Ffotograff buddugol gan Ramona Tapi

Ramona Tapi, myfyrwraig Cyfrifiadureg yn ei thrydedd flwyddyn, enillodd gystadleuaeth ffotograffiaeth Athena Swan y Brifysgol am y llun mwyaf ysbrydoledig ac atgofus sy'n gysylltiedig â'r thema gyffredinol o "Fenywod mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth (STEMM)'.

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2014 y Brifysgol, trefnwyd y gystadleuaeth gan y Tîm Athena Swan, ac roedd yn agored i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol.

Cafodd y cynigion eu beirniadu gan banel o bum aelod o'r Brifysgol a Thimau Hunan-Asesu Athena Swan IBERS: Yr Athro Chris Thomas (Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Ymchwil), Yr Athro Kate Bullen (Athro Athena Swan), Gary Reed (Cyfarwyddwr yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi), Olymbia Petrou (Ymgynghorydd Cydraddoldeb) a Joy Arkley (Partner Busnes Adnoddau Dynol IBERS). Enillodd Ramona docyn Amazon gwerth £25 am ein hymdrechion.

Dywedodd Kate Bullen, Athro Athena Swan, "Mae Athena SWAN yn canolbwyntio ar ddilyniant gyrfa menywod ym meysydd STEMM, ac roedd y gystadleuaeth ffotograffiaeth hon yn gyfle gwych i archwilio ac amlygu ffyrdd newydd o bortreadu menywod yn y pynciau hyn."

CHWYDDWYDR



# Dan y chwyddwydr… Cymorth i Fyfyrwyr

Mae Canolfan Croesawu'r Myfyrwyr ar Gampws Penglais yn siop un stop ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. I gael gwybod mwy am y gwasanaethau sydd ar gael, buom yn siarad â Chyfarwyddwr Cymorth i Fyfyrwyr, Caryl Davies.



*Staff o Wasanaethau Hygyrchedd. Chwith i'r Dde: Nicky Cashman, Diane Jones (yn eistedd), John Harrington, Marion Thomson a Doug Kerr*

**Dywedwch rywfaint amdanoch eich hun.**

Ymunais â'r Brifysgol yn 2005 fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymorth i Fyfyrwyr a chefais fy mhenodi'n Gyfarwyddwr yn swyddogol ym mis Rhagfyr 2013, er i mi fod yn Gyfarwyddwr Dros Dro am beth amser cyn hynny. Cyn symud i Brifysgol Aberystwyth bûm yn gweithio am nifer o flynyddoedd i sefydliad addysg uwch arall lle bûm yn gwneud amryw o swyddi Cymorth i Fyfyrwyr, a bûm yn gweithio cyn hynny yn y sectorau statudol a gwirfoddol. Ac ymhellach yn ôl na hynny, prin fod neb yn cofio!

**Beth yw strwythur Cymorth i Fyfyrwyr?**

Mae yma 5 gwasanaeth ac ym mhob gwasanaeth mae gwahanol dimau'n cyflawni gwahanol swyddogaethau.

Mae'r Gwasanaethau Hygyrchedd yn cynnig amrywiaeth o gymorth i fyfyrwyr anabl a'r rhai hynny a chanddynt anawsterau dysgu penodol/problemau iechyd cronig. Yn y Gwasanaethau Lles mae Gwasanaeth Cwnsela'r Myfyrwyr, ein Cynghorydd Iechyd Meddwl a'n nyrsys sy'n cynnig cyngor ar amryw o faterion iechyd. Mae pum tîm o Diwtoriaid Preswyl yn byw yn llety'r Brifysgol, a nhw yw ein Gwasanaeth Cymorth Preswyl. Mae'r Gwasanaeth Cynghori, Gwybodaeth ac Arian yn gwneud yr union bethau y mae'r teitl yn eu disgrifio, ac yn y Gwasanaethau Gofal Plant mae Meithrinfa a chynlluniau chwarae ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau.

**Sawl aelod o staff sydd yn yr adran?**

Gan gynnwys y Gwasanaethau Gofal Plant, mae gennym fwy na 50 o staff craidd (er bod llawer o'r rhain mewn swyddi rhan-amser). Mae gennym hefyd oddeutu 45 o Diwtoriaid a Mentoriaid Arbenigol sy'n gweithio 1:1 gyda'r myfyrwyr; nifer o gofnodwyr a staff cymorth 1:1 arall; 9 Cydlynydd Cymorth Preswyl ynghyd â nifer o fyfyrwyr sy'n gweithio gyda ni fel Tiwtoriaid Preswyl neu Fentoriaid y cynllun Ffordd Hyn.

**Sut mae Cymorth i Fyfyrwyr wedi newid a datblygu dros y blynyddoedd diwethaf?**

Rydym yn ceisio bod ar hyd y lle ychydig yn fwy er mwyn bod ar gael i'r staff a'r myfyrwyr ac rydym wedi bod wrthi'n ceisio nodi (a chau) bylchau yn y ddarpariaeth. Rydym yn griw brwdfrydig o unigolion sy'n rhoi pwyslais ar y myfyrwyr ac yn awyddus i symud yr Adran yn ei blaen – er enghraifft rydym wedi cychwyn ar gynllun uchelgeisiol i gael ein hachredu mewn sawl maes gwasanaeth.

**Beth yw camdybiaethau cyffredin pobl am waith eich adran?**

Daw myfyrwyr atom yn aml y gofynnwyd iddynt gysylltu â "Chymorth i Fyfyrwyr" yn hytrach na'r gwasanaeth penodol, ac yn ogystal â bod yma i'r myfyrwyr, gallwn hefyd roi cyngor a chymorth i staff ynglŷn â'u hymwneud â'r myfyrwyr. Mae rhai pobl yn camddeall ein swyddogaeth o ran cynorthwyo myfyrwyr a chanddynt broblemau iechyd meddwl – rydym yma i roi cymorth i fyfyrwyr yn eu haddysg o ddydd i ddydd ond ni allwn (ac ni ddylem) ddyblygu gwaith y gwasanaethau iechyd meddwl statudol arbenigol yn y gymuned.

**Disgrifiwch ddiwrnod arferol yn yr adran Cymorth i Fyfyrwyr.**

Byddai'n dda gen i weithiau pe bai'r fath beth â diwrnod arferol ond does dim – wyddoch chi byth yn iawn beth ddaw drwy'r drws. Dyna sy'n ei wneud mor ddiddorol ac mae'n ein cadw ar flaenau'n traed. Ond mae hefyd yn golygu bod yn rhaid rhoi rhai o'n cynlluniau i'r naill ochr er mwyn ymdrin â materion brys. Felly os ydych wedi anfon ebost ataf yn ddiweddar a heb gael ateb …

**A all aelod o'r staff gyfeirio myfyriwr at eich adran os yw o'r farn y gallai'r myfyriwr hwnnw elwa ar Gymorth i Fyfyrwyr?**

Rydym bob amser yn hapus i roi cyngor i'r staff ynghylch sut i ymateb i faterion myfyrwyr ond mae'n well gennym eu bod yn awgrymu bod y myfyrwyr yn dod i weld rhywun drostynt eu hunain. Mae hynny'n arbennig o wir o ran Cwnsela.

**Sut all pobl gysylltu â chi?**

Rydym yn deall nad yw hi bob amser yn hawdd i bobl wybod â pha dîm y mae angen iddynt gysylltu yn y gwasanaeth ond gall staff y dderbynfa eu rhoi ar ben y ffordd. Ond yn y bôn, y rhif ffôn yw 01970 622087 ar gyfer popeth yn ymwneud ag iechyd/materion seicolegol (sef rhif Canolfan Lles y Myfyrwyr ar Riw Penglais); 01970 622233 ar gyfer Gofal Plant, ac ar gyfer popeth arall cysylltwch â Chanolfan Croesawu'r Myfyrwyr ar 01970 621761.

I gael gwybod mwy ewch i'n gwefan:
www.aber.ac.uk/cy/student-support/

CHWYDDWYDR

# Dan y chwyddwydr… Uwchraddedigion

Mae uwchraddedigion yn rhan o ddyfodol Prifysgol Aberystwyth. Nodir yn ein Cynllun Strategol fod hwn yn faes twf sylweddol ac un o'n swyddogaethau ni yn y Swyddfa Marchnata, Recriwtio a Derbyn yw helpu i wireddu'r weledigaeth honno.

Dyma gyfle felly i ni fyfyrio ar y datblygiadau ym maes astudio uwchraddedig dros y flwyddyn a aeth heibio ac i feddwl pam y mae angen mwy o uwchraddedigion ar y Brifysgol (a ledled y DG).

**Pam felly y mae uwchraddedigion yn bwysig i ni?**

Yn ogystal â'r dysgu, mae allbwn ymchwil yn rhan bwysig o bob Prifysgol uchel ei bri ac mae uwchraddedigion yn gwneud cyfraniad sylweddol i'n hallbwn ymchwil. Mae cael uwchraddedigion yn cynyddu ein gallu i gynnal ymchwil o safon, sydd yn ei dro'n ychwanegu at ein hasesiad Ymchwil o Ansawdd (QR) a ariennir gan CCAUC. Ar hyn o bryd, ni sy'n drydydd yng Nghymru o ran ein cyllid QR, ac rydym yn falch iawn o hynny.

Un o'n swyddogaethau ni fel Prifysgol yw ymateb i anghenion yr economi wybodaeth sy'n newid o hyd a darparu gweithwyr hynod fedrus. Mae diwydiant, byd busnes, sefydliadau anllywodraethol a'r sector gyhoeddus i gyd yn chwilio am staff blaengar, gwybodus a chreadigol. Mae cyfraddau cyflogaeth a chyflogau cychwynnol yn uwch ar gyfartaledd ymhlith ein huwchraddedigion ni felly rydym yn gwybod bod y Brifysgol yn perfformio'n dda o ran darparu hyfforddiant o safon diwydiant a rhaid i ni geisio parhau â'r traddodiad hwn. Wedi'r cyfan, bydd meithrin enw da am ddarparu myfyrwyr ardderchog ym myd diwydiant yn cynyddu bri eich adran.

Yn ogystal, mae'n bwysig cofio hefyd am y gwerth diwylliannol a'r cyfleoedd datblygu personol i uwchraddedigion, ochr yn ochr â'r manteision proffesiynol. Mae uwchraddedigion yn cael budd o weithio ar y cyd, y profiad deinamig i fyfyrwyr a'r gymuned go iawn yma ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gwyddom o'r adborth a gawn fod uwchraddedigion yn mwynhau bod yn rhan o'r gymuned academaidd ac uwchraddedig, eu bod o'r farn bod eu tiwtoriaid academaidd yn fentoriaid ac yn athrawon rhagorol, a'u bod wrth eu bodd â'r Ysgol newydd i Raddedigion yn Llandinam. Er mwyn y profiad a ddarparwn i uwchraddedigion dylem sicrhau ein bod yn denu llawer o uwchraddedigion o bob cwr o'r byd fel bod modd i'r gymuned hon o uwchraddedigion dyfu.

**Felly pam y dylai fod yn bwysig i chi ein bod yn denu mwy o uwchraddedigion?**

Mae uwchraddedigion yn cyfrannu'n sylweddol at wybodaeth a byddwn ar ein hennill o gynorthwyo astudiaethau uwchraddedig. Rydym yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr ac academyddion blaenllaw, a gweithlu byd-eang y dyfodol, ac mae hynny'n gyfrifoldeb y dylem ei gymryd o ddifrif.

Rydym ar ddeall hefyd ei bod yn bleser gweithio gydag uwchraddedigion. Maent yn ddisglair, yn ddeallus ac yn frwd – rhesymau gwych i fod eisiau denu uwchraddedigion i'ch adran.

Wrth gwrs, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi terfyn ar nifer yr uwchraddedigion ac felly cewch dderbyn cynifer o'r myfyrwyr dawnus hyn ag y mynnwch!

**Beth sy'n newydd ac ar y gweill ym maes Marchnata, Recriwtio a Derbyn Uwchraddedigion?**

- System ymgeisio newydd i uwchraddedigion sy'n haws ei defnyddio ac yn rhoi mwy o bwyslais ar y myfyriwr. Mae'n cael ei datblygu'n fewnol a disgwylir iddi fod yn barod ym mis Gorffennaf 2014.
- Sgwrsio Sydyn ar y We ar gael ar y wefan i bob darpar fyfyriwr uwchraddedig.
- Diwrnodau Agored penodol i Uwchraddedigion, yn rhai rhithwir ac fel arall.
- Ffrwd Twitter, yn @AberUni_PG
- Dros 30 o gyrsiau newydd i uwchraddedigion, gyda chyrsiau newydd yn dechrau ym mis Medi mewn Deinameg Basnau Afonydd, Theatr Gymhwysol, Newid Amgylcheddol, a Diwylliant Digidol a'r Teledu.
- Newyddlenni i staff yn cynnwys gwybodaeth am faterion uwchraddedig a derbyn myfyrwyr
- Ysgol newydd sbon i Raddedigion yn Llandinam, Campws Penglais
- Dyddiadau wedi'u pennu ar gyfer Diwrnodau Agored Rhithwir i Uwchraddedigion
- Ysgoloriaethau uwchraddedig newydd ar gyfer myfyrwyr Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth (IMLIS) sy'n cychwyn ym mis Medi 2014



*Dau aelod o'r tîm – Rosemary Mills, Swyddog Denu Uwchraddedigion a Myfyrwyr UE a Samantha Windows, Cynorthwyydd Denu Uwchraddedigion a Myfyrwyr UE*

Yng nghanol bwrlwm dyddiad cau'r cynllun Ysgoloriaethau Doethurol i Ddatblygu Gyrfa ddechrau mis Mawrth (sef cynllun uchel ei fri'r Brifysgol ar gyfer cyllid PhD), y Diwrnod Agored i Uwchraddedigion ar 5 Ebrill a chynrychiolaeth o Aberystwyth mewn ffeiriau recriwtio, mae'n wych gweld bod nifer y ceisiadau ar gyfer rhaglenni uwchraddedig y Brifysgol a ddysgir trwy gwrs gan fyfyrwyr cartref/yr UE yn uwch na'r adeg yma'r llynedd – er gwaetha'r dirywiad cenedlaethol, felly mae gennym bob rheswm i fod yn gadarnhaol.

Yn olaf, rydym am i'n myfyrwyr uwchraddedig deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ym Mhrifysgol Aberystwyth am eu deallusrwydd a'u cyfraniadau at wybodaeth; felly gadewch i ni weithio gyda'n gilydd ac anfon neges glir ein bod eisiau myfyrwyr uwchraddedig.

POBL ABER

# Dod i nabod

*Yn Dod i Nabod ... rydym yn canolbwyntio ar aelod o'r staff a'i rôl yn y Brifysgol. Yn y rhifyn hwn, rydym yn sgwrsio â Janet Sanders sy'n gweithio yn is-adran Ynni a'r Amgylchedd yr Adran Datblygu Ystadau, sy'n gweithio i leihau effaith ystâd y Brifysgol ar yr amgylchedd yn gyffredinol.*

**Dywedwch rywfaint am eich cefndir**

Symudais i Aberystwyth yn 1993 a graddio yn y Brifysgol yn 1998 â BSc mewn Gwyddorau Daear Amgylcheddol.

**Dywedwch wrthym am eich gwaith ar hyn o bryd**

Cefais fy mhenodi i swydd Cynghorydd Ynni'r Brifysgol ym mis Tachwedd 2013. Rwyf wedi bod wrthi dros y misoedd diwethaf yn sefydlu Strategaeth Rheoli Carbon y Brifysgol, y Cynllun Ecocampws, ailsefydlu'r Grŵp Cynaliadwyedd, a gweithio i wella safle'r Brifysgol yn y cynlluniau achredu a gwobrwyo amgylcheddol.

**Wnewch chi esbonio ychydig am y Strategaeth Rheoli Carbon?**

Nodir yn y Strategaeth Rheoli Carbon fanylion ymrwymiad y Brifysgol yn awr ac yn y dyfodol i reoli a lleihau ei hallyriannau $CO_2e$ a chostau ynni. Mae'n darparu fframwaith cadarn i leihau allyriannau drwy roi ar waith drefniadau cadw tŷ da, a phrosiectau buddsoddi i arbed ac ynni adnewyddadwy. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi llai ei hallyriannau $CO_2e$ dros 10%. Ond gosodwyd targed heriol o 3% ar gyfer lleihau carbon flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd y strategaeth ar waith hyd at 2020/21, a chynhelir adolygiad interim llawn yn 2016/17.

**A beth yw'r Cynllun Ecocampws?**

Rhaglen yw'r Cynllun Ecocampws (www.ecocampus.co.uk) i helpu sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch i roi ar waith System Rheoli'r Amgylchedd, ac mae'r Brifysgol bellach yn aelod o'r cynllun. Cawn ddefnyddio'r Ganolfan Adnoddau ar-lein sy'n llawn adnoddau defnyddiol, gan gynnwys llawlyfrau meddalwedd a chyrsiau hyfforddi. Dros y misoedd nesaf, rhoddir nifer o gyflwyniadau i'r staff a'r myfyrwyr, i roi gwybod iddynt sut y gallant gael gafael ar yr adnoddau hyn a chymryd rhan. Byddwn hefyd yn gweithio gyda rhai cyflenwyr i weld sut y gallwn ddatblygu caffael cynaliadwy.

**Beth mae'r Grŵp Cynaliadwyedd yn ei wneud?**

Bydd y Grŵp Cynaliadwyedd yn ceisio gwella perfformiad a gwybodaeth am ynni, gwastraff, dŵr ac allyriannau trafnidiaeth. Dan arweiniad y Dirprwy Is-ganghellor Rebecca Davies, mae'r grŵp yn cynnwys aelodau o'r staff ac academaidd a'r staff cymorth, y myfyrwyr a'r undebau.

**Sut mae effaith adeiladau'r campws ar yr amgylchedd yn cael ei lleihau?**

Mae rheolyddion a mesuryddion System Rheoli'r Adeiladau, sef y system reoli gyfrifiadurol yn yr adeiladau, wedi eu huwchraddio. Rydym wrthi'n dod o hyd i systemau effeithlon o ran ynni yn lle'r bwyleri nwy hen iawn, gan gynnwys opsiynau ar gyfer biomas a/neu Wres a Phŵer Cyfunedig ar gyfer amryw o safleoedd. Rwyf wedi bod yn edrych gydag IBERS ar ddatblygu asesiad o adnoddau biomas, treulio anaerobig ar gyfer gwastraff slyri fferm,



*Janet Sanders*

system arddangos pico-hydro, ynghyd ag adnoddau gwynt. Mae PV a deunydd solar thermol ar gyfer toeon yn cael eu hystyried wrth eu hadnewyddu.

**Pa gynlluniau achredu a gwobrwyo amgylcheddol y mae'r Brifysgol yn rhan ohonynt?**

Mae'r Brifysgol yn benderfynol o wneud cystal â phosib yn Nghynghrair Werdd Pobl a'r Blaned a'r Gwobrau Effeithiau Gwyrdd.

Cynllun achredu a gwobrwyo amgylcheddol yw'r Gwobrau Effeithiau Gwyrdd sy'n cael ei redeg gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Mae'n dod â staff a myfyrwyr at ei gilydd ynghyd â'u cymunedau ehangach i hybu a dangos newidiadau cadarnhaol mewn arferion amgylcheddol.

Dyma'r tro cyntaf i Brifysgol Aberystwyth gymryd rhan. Mae'n ffordd gyffrous i dimau ym mhob rhan o'r Brifysgol wella'u heffeithiau ar yr amgylchedd ac ennyn diddordeb staff a myfyrwyr mewn materion hanfodol. Mae'n gyfle gwych i'r staff ddangos yr hyn sydd eisoes yn digwydd i wella perfformiad amgylcheddol ac yn gyfle hefyd i weithio tuag at nodau amgylcheddol at y dyfodol.

Gallwch gymryd rhan drwy weithio drwy lyfr gwaith ar-lein o feini prawf, wedi'u rhannu'n gategorïau Efydd, Arian a Bonws. Tua diwedd y flwyddyn academaidd, cyflwynir y llyfr gwaith ar-lein hwn ac mae myfyrwyr neu staff Prifysgol Aberystwyth yn archwilio'r timau.

Ewch i greenimpact.org.uk/aberystwyth i gael gwybod mwy.

**Pan na fyddwch yn y gwaith, beth ydych chi'n hoffi ei wneud?**

Heb ddim trefn benodol … rhedeg hanner marathon, coginio, cerdded, ieir, teulu

# Penodiadau



### DATBLYGU YSTADAU

Mae **Mark Taylor** wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Datblygu Ystadau. Mae'n gyn-fyfyriwr o Brifysgol Westminster â BSc mewn Rheolaeth Ystadau Trefol ac o Brifysgol De Cymru â Diploma Ôl-raddedig mewn Rheoli. Mae gan Mark oddeutu 30 mlynedd o brofiad yn y sector Ystadau. Dechreuodd ei yrfa yn y sector ymgynghori preifat yn Llundain cyn symud i amryw o swyddi'n ymwneud ag eiddo mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru.

### GWASANAETHAU GWYBODAETH



Mae **Tim Davies** wedi ei benodi yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth, ac mi fydd yn camu i mewn i'r rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth am y ddwy flynedd nesaf. Mae Tim yn gyn-fyfyriwr Aber ac mae ganddo nifer o raddau Prifysgol. Ymunodd â'r Brifysgol ym 1996 fel Cydymaith Ymchwil yn yr Adran Gyfrifiadureg ac yn flaenorol bu'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid. Mae Tim ar hyn o bryd yn cwblhau ei MBA yn Aber.

### GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL



Ymunodd **Dr Sergey Radchenko** â'r adran ym mis Chwefror yn Ddarllenydd mewn Cysylltiadau Rhyngwladol. Mae'n hanesydd rhyngwladol ym maes y Rhyfel Oer, yn arbenigo mewn hanes niwclear, polisi tramor Sofietaidd a gwleidyddiaeth Dwyrain Asia. Daw i'r Brifysgol ar ôl treulio sawl blwyddyn yn Athro Cynorthwyol ac yna'n Athro Cyswllt yng nghampws Tsieina Prifysgol Nottingham, lle roedd hefyd yn gyfarwyddwr Sefydliad Astudiaethau Asia a'r Môr Tawel.

# Marwolaethau

**Robert (Bob) John Wootton (1942–2014)**



Yn frodor o Birmingham, astudiodd Bob am ei radd gyntaf ym Mhrifysgol Caergrawnt, cyn mynd ymlaen i gwblhau PhD yn UBC, Vancouver. Dechreuodd ei yrfa hir mewn ymchwil ac addysgu yma yn Aberystwyth yn yr Adran Sŵoleg, gan orffen fel Darllenydd yn IBERS. Enillodd Bob fri rhyngwladol am ei ymchwil ar bysgod, a chrethyll yn benodol. Roedd yn awdur nifer o bapurau a llyfrau yn y maes hwn a chafodd ei ethol i Gymrodoriaeth Cymdeithas Linnean. Yn 2010 dyfarnwyd iddo Fedal Le Cren Cymdeithas Pysgodfeydd Ynysoedd Prydain. Roedd yn gwbl ymroddedig i addysgu ac roedd yn allweddol o ran sefydlu'r cyrsiau gradd arloesol a elwid bryd hynny'n Wyddorau'r Amgylchedd a Bioleg Dŵr. Mae'r cyrsiau a olynodd y rhain, Biowyddorau Amgylcheddol a Bioleg y Môr a Dŵr Croyw, yn parhau i ddenu myfyrwyr i IBERS.

**Mariaine Victorine (Peggy) Jones (1948-2014)**



Fe'i ganed yng Ngwlad Belg, a dechreuodd Peggy ar ei gyrfa fel nyrs yn hyfforddi yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Yn ddiweddarach, astudiodd radd mewn nyrsio yn Llundain a dychwelodd i Aberystwyth i ymgymryd â rôl Metron ym Modlondeb. Ar goresffordd gyrfa, cyfarfu Peggy â Dr Kemp, a oedd ar y pryd yn Warden Cwrt Mawr, a gofynnodd iddi a fyddai hi'n hoffi bod 'yn fam i 1,300 o fyfyrwyr y Brifysgol'. Bu'r cyfarfod damweiniol hwn yn ysgogiad i ddechrau ar fywyd newydd a hapus fel Rheolwraig Preswylfeydd gyda'r Brifysgol. Ymddeolodd Peggy ar ôl 16 mlynedd o wasanaeth yn 2007.

# Penodiad sicrhau ansawdd




Mae'r **Athro John Grattan**, Dirprwy Is-ganghellor Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol, wedi ei benodi i Fwrdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA). Mae'r QAA yn cyfarwyddo ac yn adolygu prifysgolion a cholegau ledled y Deyrnas Gyfunol, ac yn barnu safonau academaidd ac ansawdd y profiad dysgu.

# Ymddeoliadau



### GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

Ymddeolodd yr **Athro Ian Clark** o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ddiwedd 2013. Mae'r Athro Clark ymhlith aelodau staff academaidd yr adran sydd wedi gwasanaethu hiraf; mae'n arbenigwr byd-enwog ar hanes rhyngwladol ac ar theori Cysylltiadau Rhyngwladol. Bydd y staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd yn gweld ei eisiau, ac mae'r teyrngedau lu ar Twitter gan fyfyrwyr hen a newydd, a ddarllenwyd yn ei barti ymddeol, yn tystio i'w boblogrwydd. Bydd yr Athro Clark a'i wraig yn symud i Awstralia, lle mae ganddynt deulu a llawer o gyfeillion agos.



Ymddeolodd yr **Athro Martin Alexander** o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol y mis diwethaf. Mae'r Athro Alexander, a ymunodd â'r Brifysgol yn 2001, yn arbenigwr blaenllaw ar strategaeth a hanes milwrol, ac mae'n ymddiddori'n arbennig yn hanes milwrol Ffrainc. Roedd modiwlau'r Athro Alexander bob amser yn hynod boblogaidd ymhlith y myfyrwyr, a hynny oherwydd ei frwdfrydedd wrth ddarlithio, ond hefyd oherwydd y gofal a'r sylw a roddai i bob myfyriwr. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddo.

# Gwobr Llyfrau Plant Firefly 2014

Mae Dr Sarah Taylor, Pennaeth Datblygu Strategol yn yr Adran Cynllunio, Llywodraethiant a Gwybodaeth Fusnes, wedi ennill Gwobr Llyfrau Plant Firefly 2014 â'i llyfr sy'n dilyn hynt a helynt y Brenin Arthur, sydd braidd yn grintachlyd, a'i farchogion cecrus, yn yr 21ain ganrif. Gwirionodd y beirniaid ar ffraethineb ac amseru comig y llyfr, *Arthur and Me*, i blant 7–9 oed. Cyhoeddir y llyfr gan Firefly yn yr hydref. Roedd y wobr yn cael ei chynnig am stori wreiddiol i blant 7–9 oed wedi'i gosod yn y Gymru gyfoes gan awdur plant newydd. Cafodd y wobr ei beirniadu'n ddi-enw. Enillodd Sarah £500, wythnos yn Chawton House ar gwrs ysgrifennu a chyngor golygyddol gan Firefly Press.


*Dr Sarah Taylor*

# Perfformiad cyntaf cerddoriaeth goll


*Dr David Russell Hulme*

Diolch i ymchwil Dr David Russell Hulme, Cyfarwyddwr Cerdd a Darllenydd yng Nghanolfan Gerddoriaeth y Brifysgol, bu modd i BBC Radio 2 ddarlledu'r perfformiad cyntaf erioed o gân goll gan Gilbert a Sullivan.

Cyflwynodd y rhaglen *Friday Night is Music Night*, sy'n hynod boblogaidd ledled y byd, noson o gerddoriaeth Gilbert a Sullivan ar nos Wener 7 Mawrth. Roedd y rhaglen yn cynnwys nifer o ganeuon wedi'u hail-greu gan Dr Hulme o ddeunydd anghyflawn. Ystyrir mai Dr Hulme yw awdurdod mwyaf blaenllaw'r byd ar lawysgrifau Sullivan.

Roedd y perfformiad cyntaf hwn o faled ar gyfer y prif gontralto yn *The Sorcerer*. Cafodd ei thorri cyn y perfformiad cyntaf yn 1877 a dyma'r tro cyntaf iddi gael ei chlywed yn gyhoeddus.

Goroesodd y geiriau ond cafwyd gwared ar y deunydd cerddorol, a chredid ei fod wedi'i golli hyd nes i gyfres anghyflawn o rannau cerddorfaol ddod i'r wyneb yn ddiweddar. O'r rhain, llwyddodd Dr Hulme i ail-greu sgôr gerddorfaol gyflawn ynghyd â rhan y llais.

# Gŵyl Ryngwladol Ffilmiau Dogfen

Yn ddiweddar, bu Dr Dafydd Sills-Jones, darlithydd yn yr Adran Theatr, Ffilm a Theledu yn cymryd rhan yng Ngŵyl Ffilmiau Dogfen Ryngwladol Helsinki, Docpoint. Cymerodd ran mewn digwyddiadau a noddwyd gan EDN (European Documentary Network). Cafodd wahoddiad yn benodol i gymedroli mewn sesiwn arbennig lle daeth cynhyrchwyr ffilmiau dogfen o'r Ffindir a Norwy wyneb yn wyneb â chynrychiolwyr chwe gŵyl ffilmiau dogfen fwyaf blaenllaw Ewrop – Berinale, IDFA (Amsterdam), CHP:DOX (Copenhagen), Jihlava, Nyon (y Swistir) ac Artdocfest (Moscow). Cyflwynodd Dafydd ei waith ymchwil diweddaraf hefyd, ffilm ddogfen o'r enw '17', i gydweithwyr ym Mhrifysgol Aalto yn eu cyfres seminarau ymchwil 'Ajatuspiiri' ('Cylch Meddwl').


*Dr Dafydd Sills-Jones*

# Dr Huw Morgan yn ennill gwobr er cof am ysgolhaig ifanc

Mae Dr Huw Morgan, darlithydd yn yr Adran Mathemateg a Ffiseg, wedi ennill gwobr a sefydlwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er cof am Dr Eilir Hedd Morgan, darlithydd Coleg Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor, a laddwyd mewn damwain drasig y llynedd.

Bydd y wobr flynyddol yn cael ei chyflwyno i unigolyn o dan ddeugain mlwydd oed sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol ym maes gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynwyd y wobr eleni i Dr Huw Morgan yng Nghynulliad Blynyddol y Coleg yng Nghaerfyrddin ar 18 Chwefror.

Seryddiaeth a chysawd yr haul yw arbenigedd pennaf yr academydd o Lanbrynmair. Cafodd ei benodi i swydd ddarlithio ym Mhrifysgol Aberystwyth dan nawdd y Coleg yn 2011 wedi cyfnod yn gweithio fel Ymchwilydd Gwyddonol ym Mhrifysgol Hawaii.

Yn ystod y cynulliad, cafodd pedwar ffigur blaenllaw eu hanrhydeddu gan y Coleg er mwyn cydnabod eu cyfraniad allweddol i addysg uwch cyfrwng Cymraeg dros y blynyddoedd. Un o'r rhai a anrhydeddwyd oedd yr Athro Elan Closs Stephens sydd wedi hyrwyddo astudio drwy'r Gymraeg gydol ei gyrfa academaidd. Hi oedd y gyntaf i'w phenodi'n ddarlithydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn Adran Ffilm a Theledu'r Brifysgol, ac yn ddiweddarach, a hithau'n Bennaeth yr Adran, llwyddodd i gryfhau'r ddarpariaeth a oedd ar gael.



*Dr Huw Morgan*

DIGWYDDIADUR

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH

## Gŵyl Bensaernïaeth Cymru 2014

*Trefnir gan Gymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth*

**15–17 Mai**

Eleni, cwt ysgrifennu Dylan Thomas fydd yn ysbrydoli'r ŵyl i edrych ar syniadau gwreiddiol ar gyfer lleoedd / siediau bach creadigol mewn cyfres o ddigwyddiadau, sgyrsiau, arddangosfeydd a gweithdai ar thema benodol. Yn rhan o'r ŵyl hefyd bydd perfformiad o gynhyrchiad arbennig o 'Under Ply-wood' – golwg unigryw ar adfywio a chynllunio trefol!



*'Worktown: The Drawings of Falcon Hildred'. Arddangosfa o waith yr artist hynod ddawnus o Flaenau Ffestiniog, sydd wedi ymroi yn ei waith i gofnodi adeiladau a thirweddau diwydiannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.*


## Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol *The Eye*

**27–29 Mehefin**

Dros un penwythnos prysur, bydd ffotograffwyr blaenllaw'r DG a'r byd yn ymgasglu yn Aberystwyth i fwynhau rhaglen lawn o sgyrsiau, trafodaethau, cyfweliadau, adolygiadau portffolio ac arddangosfeydd ffotograffiaeth uchel eu bri yng Ngŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol *The Eye*.

Pris tocyn penwythnos i'r Ŵyl fydd £60. Bydd tocynnau dydd ar gyfer y dydd Sadwrn a'r dydd Sul hefyd ar gael am £40, a chynigir prisiau rhatach a gostyngiadau arbennig i grwpiau hefyd.

I gael gwybod mwy ewch i www.theeyefestival.co.uk




*Angéle Etoundi Essamba*

ARDDANGOSFEYDD YR YSGOL GELF

**Dydd Llun 7 Ebrill – dydd Gwener 9 Mai (ar gau 18 a 21 Ebrill)**

## *Full Circle*

*Ysgythriadau ar bren gan Hilary Paynter*



*'Fallen Angel', ysgythriad ar bren, 2008*

Mae'r arddangosfa hon yn edrych yn ôl ar yrfa un o ysgythrwyr pren uchaf ei pharch a mwyaf cynhyrchiol y DG. Mae'n cwmpasu 40 mlynedd ac yn cyd-fynd â chyhoeddi llyfr o'r un enw.

Ganwyd Hilary Paynter yn yr Alban ac astudiodd yng Ngholeg Celf Portsmouth. Aeth ymlaen i ennill MA ac MSc mewn Seicoleg a bu'n gweithio fel seicolegydd addysg, ond llwyddodd i barhau â'i gwaith printio ar yr un pryd. Hi bellach yw Llywydd Cymdeithas Frenhinol y Peintwyr-Gwneuthurwyr Printiau ac mae wedi'i hethol yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau.

Mae Paynter yn rhoi sylw yn ei gwaith i faterion cymdeithasol-wleidyddol ac mae ganddi hefyd ddiddordeb mewn tirluniau a darlunio. Mae ei gwaith yn uniongyrchol, yn chwareus, ac yn llawn hiwmor ac angerdd. Mae ei gwaith yng nghasgliadau'r V&A, Oriel Gelf Laing, Amgueddfa Fitzwilliam, ac Amgueddfa'r Ashmolean ac mae wedi darlunio nifer o lyfrau gan gynnwys llyfrau i Wasg Gregynog. Fe'i comisiynwyd hefyd i gynllunio murluniau ar gyfer Metro Tyne and Wear yng nghyntedd gorsaf ganolog Newcastle ac mae copïau o'r paneli enfawr hyn i'w gweld yn arddangosfa'r Ysgol Gelf.

**Oriel 3**

## *Synthesis of Eastern and Western Reflections*


*The four guardians of the sky: Dragon, Phoenix, Turtle and Tiger*

*Ousama Lazkani, PhD Exhibition*

Cyn dechrau ei PhD yn Aberystwyth, symudodd Ousama Lakzani o Syria i astudio ar gyfer MA yn Academi Ganolog Celfyddyd Gain Beijing. Cafodd gyfle yno i ymchwilio i ddulliau Tsieineaidd o brintio a darlunio llyfrau, a rhoi cynnig ar y dulliau hynny drosto'i hun.

Bu ganddo ddiddordeb mawr erioed yng ngwreiddiau ac arwyddocâd credoau a gwahaniaethau diwylliannol rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin, a'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt, ac yn arbennig felly ym meysydd celf, mytholeg a seryddiaeth.

Mae ei waith PhD wedi rhoi cyfle iddo barhau â'i ymchwil traws-ddiwylliannol a chyfuno hynny â'i wreiddiau yn y Dwyrain Canol.



*'Dragon, Phoenix, Turtle and Tiger', pren haenog wedi'i dorri â laser*

Yn yr arddangosfa hon mae Lazkani yn canolbwyntio ar greaduriaid canolog chwedlau Tsieina: y Ddraig, y Ffenics, y Teigr a'r Crwban Dŵr.